

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol – cynllun gweithredu strategol



# Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol – cynllun gweithredu strategol

**Cynulleidfa**

Aelodau arweiniol addysg; consortia rhanbarthol; cyfarwyddwyr addysg yr awdurdodau lleol; cynghorwyr awdurdodau lleol; penaethiaid ac uwch reolwyr ysgolion; sefydliadau rhanddeiliaid ym maes llythrennedd a rhifedd; sefydliadau addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon; lleoliadau nas cynhelir; sefydliadau ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth; a sefydliadau eraill sy'n cydweithio ag ysgolion.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno trosolwg newydd o weledigaeth glir a rennir Llywodraeth Cymru ar gyfer llythrennedd a rhifedd a gefnogir gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac athrawon er mwyn gwella safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd**

Gall y ddogfen hon gael ei defnyddio gan y consortia rhanbarthol, penaethiaid ac uwch arweinwyr ysgolion ar gyfer cynllunio llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: curriculumdivision@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasgiliau

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG25475 ISBN digidol 978 1 4734 4993 0

# Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog 2

Cyflwyniad 3

Blaenoriaeth 1 – Sicrhau dilyniant i bawb o ran llythrennedd a rhifedd 6

Blaenoriaeth 2 – Cefnogi athrawon ac ymarferwyr i fod yn athrawon ardderchog ym meysydd llythrennedd a rhifedd 12

Blaenoriaeth 3 – Canolbwyntio ar y dysgwr 17

Blaenoriaeth 4 – Llythrennedd a rhifedd am oes 21

# Rhagair gan y Gweinidog



Fy nghred gadarn yw y dylai pob person ifanc yng Nghymru gyrraedd eu potensial llawn a chael eu cefnogi i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Roedd y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a gyflwynwyd yn 2012 yn nodi camau gweithredu i helpu athrawon i roi mwy o sylw i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, ac i helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Roedd cam gweithredu hefyd i sicrhau bod y sgiliau hynny'n cael eu datblygu a'u bod yn ganolog i waith cynllunio'r ysgol. Rwy'n hynod falch i weld bod newidiadau sylweddol wedi digwydd ym maes datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ers cyflwyno'r Rhaglenni yng Nghymru. Mae'r cynnydd wedi bod yn dda!

Roedd *Cymwys am oes* wedi ailbwysleisio'r blaenoriaethau hyn. Llythrennedd a rhifedd yw'r sylfeini hanfodol sy'n caniatáu inni ymestyn ein huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm. Os nad yw plant a phobl ifanc yn sicr am hanfodion llythrennedd a rhifedd, ni allant fanteisio ar ehangder y cwricwlwm a'r cyfoeth o gyfleoedd a dewisiadau a gynigir ganddo. Felly, wrth inni ddatblygu'r sylfeini hyn ymhellach, rydym wedi pennu ein cynlluniau ar gyfer cwricwlwm newydd i Gymru, cwricwlwm am oes.

Ond mae'r her i sicrhau rhagoriaeth ym meysydd llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob plentyn ym mhob ysgol yn parhau. Ac mae ein cynllun ar gyfer y cwricwlwm newydd yn pwysleisio bod mwy i wneud i ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm.

Rwy wedi ymrwymo i'n blaenoriaethau cyffredin ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae bod yn berson llythrennog a rhifog yn golygu llawer mwy na chael gallu sylfaenol yn y sgiliau hynny. Gwyddom fod sgiliau llythrennedd a rhifedd cadarn yn hanfodol i'n pobl ifanc allu byw bywydau llawn sy'n rhoi boddhad. Rydym yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni'r her honno. Rwy'n credu'n gryf y gallwn wireddu'r weledigaeth honno drwy barhau i gydweithio ar y nod cyffredin hwn wrth fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a nodir yn y ddogfen hon.



**Huw Lewis AC**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

# Cyflwyniad

> "Bydd dysgwyr yng Nghymru yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli nhw i lwyddo, mewn cymuned addysg sy'n cydweithredu ac sy'n anelu at fod yn wych, lle mae potensial pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei ddatblygu."
>
> *Cymwys am oes* (Llywodraeth Cymru, 2014)

Roedd y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2012 yn nodi ein cynlluniau i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ar hyd a lled Cymru. Roedd y cynlluniau'n amlinellu nifer o fesurau polisi a oedd yn anelu at wneud newidiadau gwirioneddol a pharhaol yn y ffordd yr ydym yn datblygu'r sgiliau hanfodol hyn. Roedd y rhaglenni'n nodi ein hamcanion o ran y canlynol:

- cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)
- dechrau cynnal profion darllen a rhifedd cenedlaethol
- cefnogi athrawon i addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol
- hybu pwysigrwydd llythrennedd a rhifedd fel sgiliau hanfodol i bob dysgwr.

**Mae ysgolion Cymru wedi chwarae rhan ganolog wrth ysgogi newidiadau i wella deilliannau.**

**Mae'r ysgolion wedi croesawu'r FfLlRh, wedi defnyddio deilliannau profion fel sail i'r addysgu, ac wedi datblygu arbenigedd ymarferwyr ymhellach.**

**Gan fanteisio ar y dystiolaeth a gasglwyd, mae'r ddogfen hon yn cydnabod y rôl ganolog y mae'r ysgolion wedi'i chwarae wrth wneud y gwelliannau hyn, ac mae'n dathlu'r cyfan sydd wedi'i gyflawni.**

Mae'r diweddariad hwn yn ailbwysleisio ein hymrwymiad i feysydd llythrennedd a rhifedd, ac mae'n arwydd o'n hymroddiad i gynnal momentwm ein hymdrechion i wella. Mae hefyd yn edrych ymlaen at gyfnod nesaf y gwaith datblygu o ran llythrennedd a rhifedd ac yn pennu arweiniad clir. **Mae'r cyfnod nesaf hwn yn bwysicach nag erioed**, gan y bydd:

- yn datblygu'r cynnydd a wnaed hyd yma
- yn gweld y cwricwlwm newydd, sef Cwricwlwm am oes, yn cael ei greu. Ar y cyd â chymhwysedd digidol, bydd llythrennedd a rhifedd yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn y Cwricwlwm am oes.

## Beth yw ein blaenoriaethau?

Mae'r Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol wedi'u cyflwyno ar y cyd yn y ddogfen hon. Mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith ein bod yn **gweithio mewn ffordd gydlynol i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm**. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer symud ymlaen wedi'u seilio ar dystiolaeth a gasglwyd gan Estyn ac adroddiad interim ar y Gwerthusiad o'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol sy'n parhau i gael ei gynnal gan SQW, yn ogystal â'r casgliadau a ddaeth i law yn sgil cyflawni'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol.

**Blaenoriaeth 1** – Sicrhau dilyniant i bawb o ran llythrennedd a rhifedd

**Blaenoriaeth 2** – Cefnogi athrawon ac ymarferwyr i fod yn athrawon ardderchog ym meysydd llythrennedd a rhifedd

**Blaenoriaeth 3** – Canolbwyntio ar y dysgwr

**Blaenoriaeth 4** – Llythrennedd a rhifedd am oes

## Cwricwlwm newydd i Gymru – cwricwlwm am oes

- Bydd y cwricwlwm newydd yn eang, yn gytbwys, yn gynhwysfawr ac yn heriol. Wrth wraidd y cwricwlwm y mae'r pedwar diben, sy'n rhoi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu i fod:
  - **yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
  - **yn gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
  - **yn unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas
  - **yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.
- Bydd wedi'i seilio ar chwe Maes Dysgu a Phrofiad.
  - Y celfyddydau mynegiannol.
  - Iechyd a llesiant.
  - Y dyniaethau.
  - Iaith, llythrennedd a chyfathrebu.
  - Mathemateg a rhifedd.
  - Gwyddoniaeth a thechnoleg.
- Bydd tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) yn ogystal â'r sgiliau ehangach yn mynd yn rhan annatod o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

- Bydd y disgwyliadau o ran dilyniant ym meysydd llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) presennol, a'r Meysydd Dysgu sydd newydd eu datblygu ym meysydd Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygu Mathemategol, a rhaglenni astudio ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg.
- Gan gydweithio ag arbenigwyr yng Nghymru a rhai rhyngwladol, bydd gan 106 o Ysgolion Arloesi, sy'n canolbwyntio ar gynllunio a datblygu'r cwricwlwm, gyfle i arwain y gwaith wrth lunio a diffinio strwythur y cwricwlwm newydd a chynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys y ffordd y caiff y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, ynghyd â'r sgiliau ehangach, eu hymgorffori yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- Y nod yw y bydd y cwricwlwm newydd i Gymru, sy'n cael ei ddatblygu gan weithwyr addysg proffesiynol ledled Cymru, ar gael i ysgolion a lleoliadau erbyn 2018.
- Ein huchelgais yw y bydd pob ysgol a lleoliad yn defnyddio'r cwricwlwm newydd fel sail i ddysgu ac addysgu ar gyfer plant a phobl ifanc 3–16 oed o fis Medi 2021 ymlaen.
- Caiff diweddariad ar waith yr Ysgolion Arloesi ar gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd a rhifedd ei gyhoeddi yn ystod 2017.
- I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan www.llyw.cymru/cwricwlwm

# Blaenoriaeth 1 – Sicrhau dilyniant i bawb o ran llythrennedd a rhifedd

> “Rydym am i’n cwricwlwm ymgorffori disgwyliadau uchel er mwyn i’r myfyrwyr gael eu herio a’u cefnogi i ddatblygu lefelau dwfn o feddwl, a sicrhau eu bod nhw’n gallu cymhwyso eu gwybodaeth i ddatrys problemau a meddwl yn greadigol.”
>
> *Cymwys am oes* (Llywodraeth Cymru, 2014)




## Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Cafodd y FfLlRh ei ddatblygu i’n helpu i gyflawni ein nod, sef bod pob dysgwr yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae’n cynnig continwwm o ran datblygiad, gan nodi’n glir y deilliannau blynyddol a ddisgwylir ym meysydd llythrennedd a rhifedd.

Daeth **y FfLlRh yn un o ofynion statudol y cwricwlwm ym mis Medi 2013. Daeth asesu ffurfiannol yn erbyn y FfLlRh yn ofyniad statudol ym mis Medi 2014. Roedd hynny’n caniatáu i ysgolion gael blwyddyn academaidd gyfan** i ganolbwyntio ar ymgorffori’r FfLlRh yn eu gwaith cynllunio ac yn eu dysgu a’u haddysgu, cyn iddynt asesu cynnydd dysgwyr yn ei erbyn.

**Cafodd y FfLlRh ei estyn i gynnwys blynyddoedd tri a phedwar a phlant 14 i 16 oed** (ar sail anstatudol), ac **roedd ar gael ym mis Medi 2015.**

## Beth rydym wedi'i wneud?

- Rhaid i'r FfLlRh fod wrth wraidd ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. **Rydym wedi cyflwyno Meysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol; a rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r sgiliau a nodir yn y FfLlRh**.
- Mae gwybod am sgiliau llythrennedd a rhifedd ein plant o gychwyn cyntaf eu haddysg yn hanfodol i allu cynllunio eu dysgu. **Rydym wedi cyflwyno Proffil y Cyfnod Sylfaen, sy'n cynnig llinell sylfaen sy'n gyson yn genedlaethol ar gyfer plant wrth iddynt ddechrau'r ysgol**. Mae hwn wedi'i gynllunio i gyd-fynd â'r sgiliau a nodir yn y FfLlRh.
- Mae asesu ar gyfer dysgu yn hanfodol er mwyn cefnogi dilyniant yn y FfLlRh. **Rydym wedi pwysleisio'r neges allweddol hon drwy'r canllawiau sydd ar gael ar wefan Dysgu Cymru**.
- Mae gweithredu'r FfLlRh mewn modd priodol yn flaenoriaeth genedlaethol. **Rydym wedi sicrhau bod cymorth uniongyrchol ar gael i ysgolion drwy'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol, ac wedi cydweithio â'r pedwar consortiwm rhanbarthol i sicrhau bod cefnogaeth barhaus ar gael i ysgolion, sydd wedi'i hariannu gan y Grant Gwella Addysg**.

## Beth yw'r dystiolaeth?

Erbyn hyn, mae gennym ddeilliannau amlwg yr ydym yn eu disgwyl ym meysydd llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob grŵp oedran. Rhoddir pwyslais clir ar y ffaith y dylai dysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd fod yn ystyrlon a chael eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm.
*Athrawes*

Mae'r FfLlRh yn sicrhau fy mod i'n rhoi mwy o amlygrwydd i sgiliau llythrennedd a rhifedd, ac yn gallu nodi'r meysydd hynny sydd angen eu datblygu.
*Athrawes*

Rwy'n mwynhau dysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn enwedig pan fydd popeth yn dod at ei gilydd ac rwy'n gallu cofio beth i'w wneud.
*Dysgwr*

Mae'r FfLlRh yn gymorth defnyddiol wrth addysgu a chynllunio gwersi. Mae'n helpu i ystyried ffyrdd o symud ymlaen, ac i weld y bylchau sy'n bodoli o ran sgiliau.
*Athro*

Roedd adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2014–2015 yn datgan y canlynol mewn perthynas ag ysgolion uwchradd da: "mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi annog staff i weld y cysylltiadau rhwng meysydd pwnc ac wedi'u hysgogi i rannu arfer dda ar draws adrannau ac o fewn ysgolion a rhyngddynt".

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Yn ôl adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2014–15: "Yn y ddwy ran o dair o ysgolion [cynradd] lle mae'r cwricwlwm yn dda, mae athrawon yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod medrau llythrennedd a rhifedd cadarn gan ddisgyblion ac maent yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol wrth iddynt symud drwy'r ysgol".

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Yn ôl adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2013–14: "Ers cyflwyno'r FfLlRh [y Fframwaith], rydym wedi gweld cynlluniau mwy priodol ar gyfer gwella llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm".

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Roedd adroddiad interim SQW ar y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, wedi pwysleisio bod "school leaders in secondary schools acknowledged the importance of the LNF and many had taken active steps to incorporate literacy and numeracy more widely".

SQW

## Beth yw'r casgliadau ar sail y dystiolaeth?

- Fel cenedl, rydym wedi cymryd cam mawr ymlaen yn y modd yr ydym yn disgwyl i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y pynciau penodol, sef Cymraeg/Saesneg a mathemateg, a hefyd mewn pynciau, meysydd neu themâu ar draws y cwricwlwm.
- Gallwn fod yn hyderus bod ymarferwyr drwy Gymru gyfan yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r FfLlRh, a bod y rhan fwyaf o ysgolion bellach wedi cymryd camau i sicrhau bod llythrennedd a rhifedd wrth wraidd y cwricwlwm.

## Beth nesaf?

- Rhaid inni helpu ysgolion i sicrhau bod gwaith cynllunio ac asesu ar gyfer y FfLlRh yn cyfrannu'n ymarferol at gynllunio ar gyfer y ddarpariaeth. **Byddwn yn cydweithio ag ysgolion a'r consortia rhanbarthol i nodi arferion gorau er mwyn sicrhau'r cynnydd gorau ar gyfer pob dysgwr. Byddwn yn cyhoeddi astudiaethau achos a ffilm am sut mae'r ysgolion yn rhoi'r FfLlRh ar waith yn effeithiol**.
- Gwyddom fod angen mwy o gymorth i helpu athrawon i ddeall y sgiliau sy'n cael eu cynnwys yn nisgwyliadau blynyddol y FfLlRh, a'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer y sgiliau hynny pan fydd gwaith dysgwyr yn cael eu hasesu. **I gefnogi dealltwriaeth well o hynny, byddwn yn ehangu ac yn aildrefnu deunyddiau enghreifftiol i helpu athrawon i ddeall y sgiliau a'r dilyniant wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd**.
- Mae dilyniant o ran llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn rhan annatod o *Gwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*. **Byddwn yn cadarnhau'r disgwyliad hwn wrth gydweithio â'r rhwydwaith o Ysgolion Arloesi.**

### A wyddech chi...?

- Mae datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn flaenoriaeth allweddol sydd wedi'i chroesawu gan ysgolion. Pynciau, meysydd neu themâu ar draws y cwricwlwm yw'r cyfrwng ar gyfer ymgorffori a gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr mewn cyd-destunau ystyrlon.
- Dylai sgiliau llythrennedd a rhifedd gael eu haddysgu ym mhynciau Iaith/Cymraeg/Saesneg, Llythrennedd a Chyfathrebu a Mathemateg/Datblygiad Mathemategol cyn iddynt gael eu haddysgu drwy gyfrwng pynciau eraill ar draws y cwricwlwm bob amser. Mae hynny'n caniatáu i ddysgwyr gael y cyfle i fod yn fwy annibynnol yn y modd y mae'r sgiliau'n cael eu defnyddio dros amser ac ar draws amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r ysgolion i fod i weithredu'r FfLlRh gan ddefnyddio amrywiaeth o ganllawiau a deunyddiau cymorth sydd ar gael ar wefan Dysgu Cymru, gan gynnwys FfLlRh rhyngweithiol sydd â deunyddiau enghreifftiol a thasgau i'w defnyddio yn y dosbarth. I weld yr ystod lawn o ganllawiau a deunyddiau cymorth sydd ar gael, ewch i: learning.gov.wales/resources/collections/lnf?skip=1&lang=cy

## Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Cafodd y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol eu cyflwyno dros ddwy flynedd yn ôl, a chafodd **Darllen a Rhifedd Gweithdrefnol eu cyflwyno yn 2013**, ac yn dilyn hynny, cyflwynwyd **Rhesymu Rhifyddol yn 2014**. Mae ysgolion wedi defnyddio profion i fonitro ac asesu pa mor dda y mae plant yn ei wneud ers tro byd, ond mae cael profion cenedlaethol yn golygu bod gan athrawon ym mhob ysgol wybodaeth

ar sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr, sydd wedi'u seilio ar yr un dulliau mesur. Drwy asesu dysgwyr yn erbyn meini prawf sydd wedi'u pennu'n genedlaethol, mae'r profion yn cynnig data diagnostig i ymarferwyr y gellir eu defnyddio i roi cymorth i ddysgwyr unigol. Pan fydd data'r profion yn cael eu defnyddio'n effeithiol, ar y cyd â ffurfiau eraill a asesu, mae'n gallu helpu wrth lunio cynlluniau gwaith a hwyluso trafodaeth adeiladol rhwng rhieni/gofalwyr ac athrawon ynglŷn â datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant.

## Beth rydym wedi'i wneud?

- Mae sicrhau bod y profion cenedlaethol yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn hanfodol. **Rydym wedi cefnogi'r ysgolion i wneud hynny drwy gynhyrchu canllawiau a gwybodaeth helaeth, a thrwy gynnig gwasanaeth marcio a gefnogir**.
- Rhaid i rieni/gofalwyr ddeall beth yw'r profion, pam y maent yn cael eu defnyddio, a beth y maent yn gallu dangos. **Er mwyn ategu'r adroddiadau y mae rhieni/gofalwyr yn eu derbyn am ganlyniadau profion eu plant, rydym wedi cynhyrchu canllawiau ar y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yng Nghymru mewn amrywiaeth o ieithoedd, gan gynnwys ganllaw animeiddiedig ar ffurf fideo i rieni/gofalwyr**.

## Beth yw'r dystiolaeth?

"...most of the case study schools we visited were using national test data to support teaching and learning."

*Adroddiad interim SQW,* Rhagfyr 2015

SQW

Rwy'n hoffi'r profion gan eu bod yn asesiad allanol annibynnol sy'n cynnig data ystyrlon ar gyrhaeddiad a chynnydd.
*Dirprwy Bennaeth*

Yn bendant, rwy'n teimlo'n fwy hyderus fel athrawes o gael y data sydd gyda ni nawr, oherwydd inni ddadansoddi ymatebion y dysgwyr i bob cwestiwn yn fanwl.
*Athrawes*

Bydd canlyniadau'r profion yn sicr yn gwella map cwricwlwm rhifedd a llythrennedd yr ysgol gyfan, oherwydd byddwn ni'n gallu defnyddio canlyniadau'r profion i wella'r meysydd hynny sydd wir angen inni eu cefnogi a'u datblygu ar draws y cwricwlwm.
*Athro*

## Beth yw'r casgliadau ar sail y dystiolaeth?

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod ysgolion yn:

- defnyddio data'r profion cenedlaethol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu
- defnyddio'r sgoriau i weld pwy yw'r dysgwyr sydd wedi syrthio'n ôl, er mwyn gallu cynnig cymorth ychwanegol iddynt
- gallu gweld pwy yw'r dysgwyr â sgoriau uchel, er mwyn gallu datblygu mwy o weithgareddau heriol iddynt.

## A wyddech chi...?

- Nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio data'r profion cenedlaethol i asesu perfformiad ysgolion. Ar y cyd ag asesiadau athrawon, mae profion yn cynnig gwybodaeth ddiagnostig werthfawr y gellir ei defnyddio gan ysgolion i herio a chefnogi cynnydd dysgwyr.
- Mae'r ysgolion wedi gofyn am brofion sy'n fwy deinamig, sy'n gallu gwahaniaethu ar sail gallu, ac sy'n gallu cynnig mwy o ddata diagnostig amserol. Rydym wedi ymgymryd â gwaith gwerthuso ar y posibilrwydd o gyflwyno profion sydd wedi'u haddasu i'w defnyddio ar y cyfrifiadur, ac wedi gweld bod symud i brofion ar-lein yng Nghymru yn bosibl. Bydd gan yr ysgolion rôl bwysig wrth ein helpu i lunio'r profion newydd, ac amlinellu'r wybodaeth ddiagnostig sydd ei hangen arnynt i helpu cynnydd dysgwyr.


## Beth nesaf?

- I wella manteision ffurfiannol a diagnostig y profion cenedlaethol ar gyfer pob dysgwr, fel sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ***Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes,*** **byddwn yn cyflwyno profion wedi'u haddasu i'w defnyddio ar y cyfrifiadur o 2018 ymlaen**.

# Blaenoriaeth 2 – Cefnogi athrawon ac ymarferwyr i fod yn athrawon ardderchog ym meysydd llythrennedd a rhifedd

> “Mae addysgu a dysgu ardderchog yn deillio o ymarferwyr brwdfrydig, ymroddedig, rhagorol sy’n hyfedr, sy’n cyfuno gwybodaeth arbenigol o’r pwnc â dealltwriaeth drwyadl o’r broses ddysgu, ac sy’n ceisio gwella eu sgiliau yn gyson.”
>
> *Cymwys am oes* (Llywodraeth Cymru, 2014)

**Mae *Cymwys am oes* yn ei gwneud yn glir, ansawdd yr addysgu yw’r peth pwysicaf o ran ymdrechion ein hysgolion i wella, yn anad dim**. Datblygu gweithlu proffesiynol rhagorol yw un o’r egwyddorion sy’n sail i raglenni llythrennedd a rhifedd 2012, ac mae’r egwyddor honno yn parhau i fod yn rhan annatod o’n cynllun i wella addysg.



## Beth rydym wedi'i wneud?

- Sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd yw llythrennedd a rhifedd. **Rhaid i athrawon y dyfodol ddeall pwysigrwydd hynny. Fel canlyniad i hynny, rydym wedi gofyn i ganolfannau Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon sicrhau bod llythrennedd a rhifedd wrth wraidd eu rhaglen**.
- Mae athrawon sydd newydd gymhwyso yn haeddu cael cymorth, ac o bryd i'w gilydd mae angen cefnogaeth arnynt. **Rydym wedi cyflwyno modiwlau penodol ar lythrennedd a rhifedd fel rhan o'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol**.
- Mae dysgu proffesiynol parhaus yn hanfodol i ddatblygiad proffesiynol pobl o bob oed. **Rydym wedi cefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer pob ymarferydd addysgol drwy ein pecynnau e-ddysgu rhyngweithiol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Dysgu Cymru**.
- Mae rhannu arferion da a strategaethau a methodolegau dysgu ac addysgu effeithiol yn un o'r nodau craidd inni yng Nghymru. **Rydym wedi creu rhaglen Athrawon Llythrennedd a Rhifedd Rhagorol i gefnogi hynny, ac ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, rydym wedi datblygu dull o gydweithio rhwng ysgolion**.
- Rhaid i athrawon feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth bersonol sydd eu hangen arnynt o ran llythrennedd a rhifedd gweithredol, er mwyn gallu datblygu sgiliau dysgwyr. **Rydym wedi'i wneud yn ofyniad statudol bod darpar athrawon yn meddu ar y lefel briodol o sgiliau llythrennedd a rhifedd i gofrestru ar gyfer rhaglenni hyfforddi Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (2013/14)**.
- Roedd angen inni ystyried yr hyn y gellid ei wneud i wella'r ffordd yr ydym yn dysgu ac yn addysgu mathemateg yng Nghymru. **I fynd i'r afael â hyn, rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mathemateg. Cyhoeddwyd adroddiad y grŵp ym mis Rhagfyr 2015**.
- **Cafodd y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg** ei lansio yn 2014, i helpu ymarferwyr i ystyried eu harferion ac i nodi'r dysgu proffesiynol a fyddai'n eu galluogi i gefnogi eu dysgwyr yn well, gan gynnwys o ran sgiliau llythrennedd a rhifedd.

## Beth yw'r dystiolaeth?

Mae Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2014–15 yn datgan bod athrawon mewn ysgolion da "yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall eu pwnc ei wneud at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac yn datblygu agweddau penodol ar lythrennedd a rhifedd sy'n ymwneud â'u pwnc penodol".

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

"It was evident that the introduction of the NLNP (particularly the LNF) has had considerable impact on strategic planning within Wales' three ITET Centres."

*Adroddiad interim SQW,* Rhagfyr 2015

SQW

Mae'r FfLlRh yn caniatáu i athrawon greu gweithgareddau buddiol iawn sy'n cynnwys nifer o sgiliau.

*Dirprwy Bennaeth*

Mae'r Rhaglen ar gyfer Athrawon Rhagorol yn caniatáu inni ystyried a dadansoddi ein ffordd bersonol ni o addysgu yn fwy manwl.

*Athro*

## Beth yw'r casgliadau ar sail y dystiolaeth?

- Os bydd ysgolion yn wynebu heriau wrth gyflwyno sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn aml mae'r rhain wedi'u seilio ar y ffaith nad yw'r athrawon yn deall yn iawn sut y gall wahanol bynciau ddarparu cyd-destunau go iawn a gwerthfawr er mwyn i ddysgwyr gymhwyso a gwella eu sgiliau.
- Mae'r gwerthusiad o'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd wedi cyfeirio at y ffaith bod ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion yn pwysleisio ei bod yn bwysig cael canllawiau ac enghreifftiau clir i'w cefnogi wrth gynllunio ac addysgu.
- Mae Adroddiad Blynyddol Estyn (2014–15) yn cyfeirio at y dulliau rhagorol o addysgu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion cynradd sy'n cynnig profiadau diddorol i ddysgwyr allu cymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu.

## Beth nesaf?

- Mae platfform Hwb yn adnodd allweddol ar gyfer ymarferwyr. **Byddwn yn cefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'u hoffer a'u hadnoddau digidol ar gyfer llythrennedd a rhifedd sy'n cael eu darparu drwy Hwb**.
- Rhaid i ddarpariaeth Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon adlewyrchu ein ffocws cenedlaethol ar sgiliau llythrennedd a rhifedd. **Byddwn yn sicrhau bod trefniadau achredu diwygiedig Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer pob rhaglen astudio newydd yn parhau i addysgu llythrennedd a rhifedd i gefnogi'r FfLlRh**.
- Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mathemateg wedi nodi ffyrdd amlwg o fynd ati i wella ein harferion a'r ddarpariaeth. **Byddwn yn sefydlu ffordd o gydweithio rhwng ysgolion i gefnogi dysgu ac addysgu mathemateg, gan weithio gyda'r consortia rhanbarthol a'r rhwydwaith o Ysgolion Arloesi a fydd yn gweithredu fel canolfannau**.

### A wyddech chi...?

- **I gyd-fynd â'r FfLlRh, cafodd rhaglen genedlaethol o gymorth ei chyflwyno hefyd – y tro cyntaf inni ymgymryd â rhaglen o'r maint a'r cwmpas hynny yng Nghymru.** Roedd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn cefnogi ysgolion i weithredu'r FfLlRh ar y cychwyn. Roedd wedi darparu dros 13,000 o ymweliadau a gweithdai i gefnogi ysgolion ledled Cymru rhwng Mehefin 2013 a Gorffennaf 2015.

### A wyddech chi...?

- **Mae Hwb a phlatfform Hwb+ yn darparu ystod eang o offer ac adnoddau digidol a fydd yn cefnogi ysgolion wrth drawsnewid arferion yn yr ystafell ddosbarth.** Mae'n anelu at gefnogi profiadau dysgu dysgwyr yn benodol drwy ganiatáu iddynt ddefnyddio amryfal dechnolegau.

  hwb.wales.gov.uk

## A wyddech chi...?

- Fel rhan o'r Fargen Newydd, rydym **yn datblygu Safonau Proffesiynol diwygiedig a fydd yn cefnogi'r arferion addysgu mwyaf effeithiol a phasbort dysgu proffesiynol, fel bod pob ymarferydd yn gallu cofnodi eu dysgu proffesiynol a'i ystyried, yn ogystal â nodi'u camau nesaf.**

  **I gael rhagor o wybodaeth ar y Fargen Newydd, ewch i:**
  learning.gov.wales/yourcareer/newdeal/?skip=1&lang=cy

  **Adnoddau dysgu proffesiynol y Fargen Newydd i gefnogi llythrennedd a rhifedd:**
  learning.gov.wales/resources/learningpacks/mep/literacy/?skip=1&lang=cy
  learning.gov.wales/resources/learningpacks/mep/numeracy/?skip=1&lang=cy

## A wyddech chi...?

- **Mae rhwydwaith cenedlaethol o 60+ o Ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd wedi'u penodi**. Swyddogaeth y rhain fydd gweithio'n agos ag ysgolion a'r consortia rhanbarthol ledled Cymru i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Bydd y ddarpariaeth yn rhoi enghreifftiau o arferion effeithiol yn yr ystafell ddosbarth a bydd yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu datblygu'r sgiliau mewn addysgeg ac arweinyddiaeth er mwyn cyflawni gofynion y cwricwlwm newydd yn llwyddiannus.

# Blaenoriaeth 3 – Canolbwyntio ar y dysgwr

> “Mae pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddysgu sydd wedi'i bersonoli. Mae gwerthfawrogi amrywiaeth a chynwysoldeb yn golygu y dylai pob plentyn a pherson ifanc elwa o ddysgu sy'n ateb eu hanghenion.”
>
> *Cymwys am oes* (Llywodraeth Cymru, 2014)

Mae ein strategaethau i wella safonau llythrennedd a rhifedd ar lefel genedlaethol yn seiliedig ar y credoau craidd canlynol:

- rhaid canolbwyntio ar anghenion y dysgwr unigol bob amser
- mae dysgwyr yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud
- rhaid inni gael dyheadau uchel ar gyfer pob un o'n dysgwyr
- ni ddylai cefndir plentyn neu berson ifanc gyfyngu ar yr hyn y gallant ei gyflawni.

**Mae sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cymorth penodol sydd ei angen arno i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog wedi bod yn un o flaenoriaethau'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd hyd yn hyn.**

## Beth rydym wedi'i wneud?

- Er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, **rydym wedi sefydlu ac wedi ariannu ysgolion i gefnogi ei gilydd. Caiff y system hon ei harwain gan ysgolion arbennig sy'n cefnogi ysgolion arbennig eraill ac ysgolion prif ffrwd**.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal cyfres o ymyriadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd. **Rydym wedi cynhyrchu canllawiau i ysgolion ar y rhaglenni dal i fyny sydd ar gael ar gyfer sgiliau llythrennedd a rhifedd, fel bod y dulliau mwyaf effeithiol yn amlwg**.
- Mae cefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig i gyrraedd eu potensial yn yr ysgol yn flaenoriaeth genedlaethol. **Roedd ein cyhoeddiad, *Ailysgrifennu'r Dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru* (2014) wedi rhoi sylw i'r ffyrdd y gallwn bwysleisio'r nod allweddol hwn**.
- Rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar berfformiad addysgol plant sy'n derbyn gofal drwy ein strategaeth newydd, **Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru**.
- Er mwyn caniatáu i ysgolion roi cefnogaeth well i'r rhai hynny sydd ag anawsterau dysgu penodol, **rydym wedi datblygu *Fframwaith ar gyfer anawsterau dysgu penodol***.
- Er mwyn helpu ysgolion i gynnig cymorth ychwanegol i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac i blant sy'n derbyn gofal, **rydym wedi cyflwyno Grant Amddifadedd Disgyblion, gan gynnwys canllawiau ategol ar arferion da, sef *Beth sydd wir yn gweithio?***

## Beth yw’r dystiolaeth?

Mae ystadegau addysgol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 yn dangos bod cyrhaeddiad y dysgwyr hynny sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn uwch nag a fu erioed ym mhob cyfnod allweddol (gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-free-school-meals/?skip=1&lang=cy). Mae dadansoddiad o’r ffigurau sydd wedi’u cyhoeddi ynghylch y dysgwyr hynny sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd wedi cyrraedd trothwy Lefel 2 cynhwysol, yn dangos bod cyfraddau gwella dysgwyr wedi mwy na dyblu ers cyflwyno’r Grant Amddifadedd Disgyblion.

> Galla’ i ddefnyddio fy sgiliau rhifedd i’m helpu gyda phethau eraill.
>
> *Dysgwr*

> Rwy’n mwynhau datrys problemau ac yn teimlo’n dda pan fydda’ i’n dysgu pethau newydd!
>
> *Dysgwr*

> Byddai gweld llyfr sy’n eich ysbrydoli a methu ei ddarllen yn gwneud ichi deimlo’n drist.
>
> Mathemateg yw fy hoff bwnc achos bod rhaid ichi ddatrys pethau.
>
> *Dysgwyr*

## Beth yw’r casgliadau ar sail y dystiolaeth?

- Er bod gwelliant, mae tlodi’n cael effaith enfawr ar lythrennedd a rhifedd plant.
- Ar gyfartaledd mae dysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim eisoes flwyddyn y tu ôl o safbwynt eu geirfa pan fyddant **yn dechrau’r ysgol**, ac maent hefyd ymhell ar ei hôl hi o ran eu sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar. Mae dysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd yn llawer mwy tebygol o ddechrau’r ysgol uwchradd gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd isel, ac mae hynny’n cyfyngu ar eu cyrhaeddiad yn nes ymlaen.
- Mae cyrhaeddiad grwpiau eraill o ddysgwyr – fel plant sy’n derbyn gofal, y rhai hynny a oedd yn arfer derbyn gofal ac sydd bellach wedi’u mabwysiadu, a dysgwyr sy’n Sipsiwn, Roma a Theithwyr – hefyd yn rhy isel o lawer.

- Er y gall labeli fel dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal, neu Saesneg fel Iaith Ychwanegol, fod o gymorth weithiau, rhaid inni sicrhau ein bod yn rhoi sylw i nodi a chynnig y math iawn o gymorth sy'n addas at anghenion ac amgylchiadau penodol y dysgwr unigol. Wrth wahaniaethu'n ddoeth byddwn yn cryfhau ein dymuniad i sicrhau system addysg sy'n fwy teg ac sy'n cefnogi **pob** dysgwr.
- Mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod addysg a gofal o ansawdd uchel i blant yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac ymarferwyr ar hyd a lled Cymru wedi gweithredu'r FfLlRh mewn ffyrdd sy'n ystyried cynnydd unigolion a'r ffyrdd gwahanol y mae plant yn dysgu. Roedd y gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen a gyhoeddwyd yn 2015 yn adrodd os nad oedd egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi'u deall neu eu mabwysiadu'n iawn, yna gallai hynny arwain at ddirywiad mewn cyrhaeddiad ar gyfer llythrennedd a rhifedd – a dymuniad i ddychwelyd i ddull mwy ffurfiol, sy'n seiliedig ar gymwyseddau, i ddysgu'r sgiliau hynny.

## Beth nesaf?

- Mae gan bob dysgwr yr hawl i gael asesiad ffurfiannol effeithiol er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt wneud cynnydd. **Fel y nodwyd yn y ddogfen *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*, byddwn yn cydweithio â'r Ysgolion Arloesi i gynhyrchu Fframwaith Asesu a Gwerthuso i hybu'r ystod eang o dechnegau asesu sy'n gwneud cyfraniad adeiladol at ddysgu pobl ifanc**.
- Mae ysgolion arbennig/darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd yn parhau i ymgorffori'r FfLlRh ar draws y cwricwlwm. **Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn i gyflawni hynny drwy raglen o gydweithio rhwng ysgolion a gaiff ei hariannu**.
- Mae datblygu sgiliau iaith yn y blynyddoedd cynnar yn sylfaen hanfodol. **Byddwn yn edrych ar y math o ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau iaith yn gynnar, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y maes hwn yn diwallu anghenion pob dysgwr, yn enwedig y rhai hynny o gefndiroedd difreintiedig. Byddwn yn adnewyddu'r cyflenwad o Fagiau Llyfrau Dechrau'n Deg sydd gan dimoedd ar hyd a lled Cymru, er mwyn sicrhau bod pob plentyn dwy flwydd oed sy'n rhan o raglen Dechrau'n Deg yn parhau i dderbyn yr adnodd hwn tan ddiwedd cyfnod ariannu presennol Dechrau'n Deg (2016/17)**.
- Mae addysgeg effeithiol a chyson yn y Cyfnod Sylfaen yn flaenoriaeth. **Bydd Grŵp Arbenigwyr y Cyfnod Sylfaen yn datblygu ac yn cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ym mis Mawrth 2016**.
- Rhaid inni fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd ein dysgwyr sydd dan anfantais. **Byddwn yn sicrhau bod llythrennedd yn ganolog i'n rhaglen newydd, sef *Ailysgrifennu'r dyfodol* o haf 2016 ymlaen**.

## A wyddech chi...?

- Mae'r FfLlRh yn gontiwwm dysgu i bob dysgwr, gan gynnwys ein dysgwyr ieuengaf yn y Cyfnod Sylfaen, a'r rhai hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig. Cafodd ei gynllunio i fod yn gynhwysol ac i gefnogi dilyniant pob un o'n dysgwyr. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn ffordd gaeth, ond fe ddylai gael ei ddefnyddio i nodi'r sgiliau y mae angen i ddysgwyr unigol eu datblygu, neu'r rhai y maent yn gallu eu dangos ar draws amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau.
- Mae'r FfLlRh a'r Cyfnod Sylfaen yn rhan o'r un cwricwlwm holistaidd, ac fe ddylai'r FfLlRh gael ei gyflwyno yn y Cyfnod Sylfaen, gan ddefnyddio egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

## A wyddech chi...?

- Mae asesu ffurfiannol yn hanfodol, er mwyn inni sicrhau bod ein darpariaeth yn gweddu i anghenion ein dysgwyr. Mae'n sicrhau ein bod yn ymateb yn weithredol i'r hyn y mae'r dysgwr **yn gallu** ei wneud . . . i'r hyn **na allant ei wneud eto** . . . a sut y gallwn eu cefnogi i gyrraedd y nod. Mae'r FfLlRh wedi'i gynllunio i gael ei asesu'n ffurfiannol; mae'n cefnogi'r gwaith o gynllunio cyfleoedd dysgu ac addysgu ystyrlon, fel bod y sgiliau sy'n cael eu datblygu a'u defnyddio yn addas i'r dysgwr.

## A wyddech chi...?

- Drwy gyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion, rydym wedi:
  - cynyddu'r maint ar gyfer pob disgybl cymwys o £450 yn 2012–13 i £1,150 yn 2016–17
  - estyn y grant o 2015, fel bod dysgwyr yn gymwys o 3 a 4 oed ar sail £300 y dysgwr

**I gael rhagor o wybodaeth am y Grant Amddifadedd Disgyblion, ewch i:**
gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?skip=1&lang=cy

gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/pdg-and-early-years-pdg/?skip=1&lang=cy

# Blaenoriaeth 4 – Llythrennedd a rhifedd am oes

“...gwella llythrennedd a rhifedd ... yw ein blaenoriaethau o hyd” a hynny sy’n sail i amcanion strategol Cymwys am Oes.

*Cymwys am oes* (Llywodraeth Cymru, 2014)

Mae rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd 2012 yn nodi pwysigrwydd datblygu diwylliant yng Nghymru lle mae pawb yn ystyried ei bod yn hanfodol bwysig i fod yn llythrennog ac yn rhifog.

Mae partneriaid yn y gymuned yn chwarae rôl bwysig iawn wrth helpu ein plant a’n pobl ifanc i ddatblygu’r sgiliau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen arnynt.

Rydym hefyd yn cydnabod y rôl bwerus sydd gan deuluoedd. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr sydd â sgiliau llythrennedd isel rieni sydd hefyd yn cael trafferth gyda llythrennedd. Mae nifer o ysgolion eisoes yn gweithio’n llwyddiannus i helpu teuluoedd i ddysgu sut i ddarllen â’u plant, ymarfer eu rhifedd, a chefnogi eu dysgu mewn ffyrdd syml eraill.

Yr hyn sydd ei angen yw dull sy’n parhau, sy’n gynaliadwy ac sy’n esblygu ar lefel genedlaethol a fydd yn gweithio o ddifrif i gryfhau sgiliau llythrennedd a rhifedd ein plant a’n pobl ifanc, a hefyd rhai eu rhieni/gofalwyr.

Rydym wedi defnyddio’r teledu, y radio a’r cyfryngau cymdeithasol i rannu’r neges allweddol fod sgiliau llythrennedd a rhifedd yn rhai hanfodol ar gyfer bywyd pob dydd. Mae’r ymgyrch ‘Mae addysg yn dechrau yn y cartref’ yn tynnu sylw at sut gall rhieni/gofalwyr helpu eu plant drwy wneud pethau bach gartref a fydd yn eu helpu i wneud yn well yn yr ysgol.

‘Rho Amser i Ddarllen’

‘Mae eich geiriau’n cyfri!’

## Beth rydym wedi’i wneud?

- Mae darllen yn sgil hanfodol ar gyfer bywyd, ac mae’n ffynnu’n well ar draws ystod lawn o gyfloeoedd, yn y cartref ac yn yr ysgol. **Rydym wedi arwain Her Darllen yr Haf ar y cyd â Chyngor Llyfrau Cymru i gynyddu’r sylw ar gefnogi sgiliau darllen dysgwyr**. Drwy’r ymgyrch ‘Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref’, rydym wedi hybu pwysigrwydd darllen a rhifedd i rieni/gofalwyr – gan roi gyngor ac awgrymiadau iddynt ar gyfer bywyd pob dydd (www.facebook.com/dechraucartref).

- Dylai llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen gyd-fynd â'r ethos hwnnw, ac annog perthynas dda rhwng ymarferwyr a rhieni/gofalwyr yn y cartref. Rydym wedi cyflwyno rhaglen Pori Drwy Stori i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant oed dosbarth derbyn. Mae'r rhaglen yn cynnig adnoddau cyffrous o ansawdd uchel i ddysgwyr i'w defnyddio yn yr ysgol a gartref.
- Mae'r ysgolion yn cysylltu'n rheolaidd â rhieni/gofalwyr a grwpiau cymunedol, ac yn ystyried eu bod yn bartneriaid yn mhroses dysgu plant. **Rydym wedi cyhoeddi *Wynebu'r her gyda'n gilydd* – pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd.** learning.gov.wales/resources/browse-all/family-and-community-engagement-toolkit/?skip=1&lang=cy

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

- Mae cael cwricwlwm a ffordd o weithio sy'n eang a chytbwys yn hanfodol. **Rydym wedi nodi'r ffordd y gall ysgolion ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i helpu i wella cyraeddiadau, gan gynnwys cyrhaeddiad ym meysydd llythrennedd a rhifedd, drwy weithgareddau celf a diwylliannol**. learning.gov.wales/resources/browse-all/pdg-in-support-of-arts/?skip=1&lang=cy
- Mae meithrin creadigrwydd plant a defnyddio'r celfyddydau a diwylliant fel cyd-destunau dysgu cyfoethog yn gallu arwain at wella'r ffordd yr ydym yn meithrin diddordeb, a chyrhaeddiad gwell. **Rydym wedi cyhoeddi *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu i Gymru*, sy'n cefnogi defnyddio dulliau creadigol wrth ddysgu ac addysgu i godi safonau ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Rydym hefyd wedi ariannu ac arwain rhaglen addysg i ysgolion i gefnogi canmlwyddiant Dylan Thomas, gan gynnwys adnoddau newydd ar Hwb**.
- Er mwyn cyfathrebu manteision darllen, rydym **wedi cefnogi ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau Diwrnod y Llyfr, drwy gyllid grant i Gyngor Llyfrau Cymru**.
- Mae meddu ar sgiliau llythrennedd ariannol yn hanfodol ar gyfer bywyd. **I gefnogi'r nod hwnnw rydym wedi datblygu pecyn addysgu addysg ariannol, ac wedi sicrhau bod lle blaenllaw i addysg ariannol yn y FfLlRh ac yn rhaglen astudio mathemateg 2015**.

## Y dystiolaeth

'...Yn aml, mae'r celfyddydau yn darparu cyd-destun ysgogol i ddisgyblion ei ddefnyddio ac i ddatblygu'u medrau llythrennedd', ac 'yn yr (ysgolion) arfer orau, mae arweinwyr yn dod o hyd i ffyrdd i sicrhau bod y celfyddydau creadigol yn gwella cyflawniadau disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd, er enghraifft trwy ddarparu profiadau i siarad ac ysgrifennu amdanynt.'

*Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2* (Estyn, Mai 2015)

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mae astudiaethau ymchwil mewn cyhoeddiadau cryno sy'n dwyn y teitlau 'This Much We Know' (Creative Partnerships, 2007) a 'Changing Young Lives', (CCE, 2009, 2012) yn awgrymu bod cydberthynas gadarnhaol rhwng cymryd rhan mewn rhaglenni Creative Partnerships a gwelliannau mewn agweddau dysgwyr at ddysgu a chyrhaeddiad yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.

Dengys gwaith ymchwil fod y graddau y mae teuluoedd yn meithrin diddordeb yn yr hyn y mae eu plant 7 oed yn ei ddysgu  yn cael chwe gwaith mwy o ddylanwad ar gyrhaeddiad addysgol plentyn nag yw safon yr ysgol.

*Effaith cynnwys rhieni, cefnogaeth rhieni ac addysg y teulu ar gyrhaeddiad ac ymaddasiad* (Desforges ac Abouchaar (2003)

Llythrennedd a rhifedd yw'r pethau y gallwn eu defnyddio ym mhob un o'n pynciau, a byddan nhw'n ein helpu ni mewn bywyd pob dydd.

*Dysgwr*

## Beth yw'r casgliadau ar sail y dystiolaeth?

- Gall teuluoedd (ac maen nhw'n) chwarae rôl hynod bwysig yn natblygiad plentyn o'u sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgolion yn gallu gwneud cryn dipyn i'w helpu, er enghraifft drwy ddangos iddynt y ffordd orau o ddarllen i'w plant, neu sut i chwarae gemau syml â rhifau.
- Mae cefnogi plant a phobl ifanc i feithrin sgiliau creadigol ar draws y cwricwlwm yn gallu cynnig amrywiaeth o fanteision, sy'n cynnwys agweddau dysgwyr at ddysgu a chyrhaeddiad yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.

## Beth nesaf?

- Mae sicrhau bod y teulu'n cael ei gynnwys yn gwneud gwahaniaeth. **Byddwn yn annog pob ysgol i ddefnyddio'r *Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd* i ymestyn y ffordd y maent yn cydweithio â theuluoedd a'r gymuned, er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant, a hefyd eu hannog i ddefnyddio'u Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer prosiectau dysgu i'r teulu sy'n dda ar gyfer teuluoedd sydd â lefelau llythrennedd a rhifedd isel**.
- Mae profiadau dysgu cyfoethog yn cryfhau sgiliau llythrennedd a rhifedd. **Byddwn yn annog ysgolion i ddatblygu cyd-destunau go iawn ar gyfer y dysgu fel rhan o Gwricwlwm i Gymru**.

- Mae'r pethau bach y mae rhieni/gofalwyr yn eu gwneud gartref yn gwneud gwahaniaeth i sgiliau llythrennedd a rhifedd plant. **Byddwn yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar ymgyrchoedd i annog teuluoedd i wneud y pethau syml sy'n cefnogi llythrennedd a rhifedd plant, gan gynnwys pwysleisio pwysigrwydd cefnogi datblygu sgiliau iaith yn y blynyddoedd cynnar**.
- Mae'r celfyddydau a diwylliant yn cynnig cyd-destun atyniadol, er mwyn dysgu a datblygu creadigrwydd. **Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, ysgolion, a'r sector celfyddydau i helpu i ddatblygu sgiliau creadigol, llythrennedd a rhifedd, fel rhan o'r Cynllun Dysgu Creadigol 5 mlynedd. Byddwn hefyd yn cyflwyno rhaglen addysg Canmlwyddiant Roald Dahl, gan gynnwys cystadlaethau ysgrifennu a fydd yn cyd-fynd â Blwyddyn Antur 2016**.

## A wyddech chi...?

- Rydym yn gwybod:
  - mai'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd yw'r rhai hynny sy'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r sgiliau hynny mewn gwersi sydd â chyd-destun gwirioneddol, yn hytrach na mewn ffyrdd sy'n gallu ymddangos yn ffug.
  - mai'r ffyrdd mwyaf cyffrous ac arloesol o ddysgu sy'n ysbrydoli dysgwyr i werthfawrogi llythrennedd a rhifedd fel sgiliau pwysig ar gyfer bywyd.




Bydd datblygu **Cwricwlwm i Gymru** yn creu cyfleoedd ac yn caniatáu'r amgylchiadau i'r ffyrdd hyn o ddysgu gael eu datblygu. Byddwn yn parhau i rannu enghreifftiau o arferion da sy'n dangos ffordd greadigol o fynd ati. Byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd ychwanegol y gall llythrennedd a rhifedd gael eu cyflwyno mewn modd ystyrlon a diddorol ar draws y cwricwlwm.

## A wyddech chi...?

- Mae creadigrwydd o bwys. Rydym yn gwybod bod y celfyddydau a dysgu creadigol yn cynnig ffyrdd i ysgogi a gwella'r gallu i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r cynllun gweithredu Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn cael ei roi ar waith mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, gan weithio ar y cyd ag ysgolion a'r consortia rhanbarthol. Bydd y gwaith hwn yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY